RHAGOROL!

CANMOLIAETH I YSGOL GYMUNED CWM Y GLO

Mae Ysgol Gymuned Cwm y Glo yng Ngwynedd wedi derbyn adroddiad hynod bositif gan Estyn yn dilyn arolygiad o'r ysgol cyn y Nadolig. O ganlyniad, mae'r ysgol yn ymuno â charfan ddethol o sefydliadau addysg yng Nghymru sydd wedi derbyn statws 'Rhagorol' mewn agwedd o'u gwaith gan yr Arolygwyr. Ymhlith yr agweddau a nodwyd fel rhagoriaethau oedd arweinyddiaeth a systemau hunan arfarnu.

Nodwyd fod y gofal sydd gan yr ysgol am ei phlant, ei pholisiau gwrth fwlio ac aeddfedrwydd a chyfrifoldeb cymdeithasol y plant eu hunain, yn rhagorol. Adroddodd yr Arolygwyr fod y rhieni, mewn cyfarfod gyda'r tîm arolygu, yn unfrydol yn eu canmoliaeth o'r ysgol a'r rhan y mae'n chwarae ym mywydau eu plant.

Holwyd aelodau o'r Cyngor Ysgol ynglŷn â'u teimladau yn dilyn yr arolygiad. Dywedodd un aelod o'r cyngor: 'Y peth gorau oedd clywed un o'r Arolygwyr yn dweud "Wow!" wrth agor fy llyfr a gweld fy ngwaith.' Yn ôl aelod arall, 'Roedd o'n deimlad braf iawn clywed bod yr Arolygwyr yn hoffi ein hysgol ni cymaint!'

Canmolwyd rôl y llywodraethwyr a'r gymuned ym mywyd yr ysgol. Ac adnabuwyd dwyieithrwydd naturiol, y parch sydd gan y rhieni a'r plant i'r iaith Gymraeg a'r Saesneg, a'r gwaith mae'r ysgol yn ei wneud i hyrwyddo'r Cwricwlwm Cymreig fel agweddau rhagorol.

Dywedodd Cadeirydd y Corff Llywodraethol, y Cynghorydd Brian Jones: 'Mae Estyn wedi adnabod arweinyddiaeth rhagorol a gweledigaeth glir y pennaeth, Mr Garem Jackson, ynghyd â gwaith caled disgyblion a staff arbennig yr ysgol, ac mae'r adroddiad yn glod mawr iddynt. Mae'r ysgol wedi dod yn bell iawn mewn cyfnod byr o amser, ac mae systemau newydd hunan arfarnu'r ysgol yn sylfaen gadarn iawn i welliant pellach.'

YN EI CHANOL

Da gweld fod pob un yn tynnu ei bwysau yn ystod y tywydd mawr.